# Fframwaith Safonau Proffesiynol ar gyfer addysgu a chefnogi dysgu mewn addysg uwch 2023

AdvanceHE

# Diben

Mae'r Fframwaith Safonau Proffesiynol yn:

– dangos i ddysgwyr a rhanddeiliaid eraill y proffesiynoldeb y mae cydweithwyr a sefydliadau yn ei gyfrannu at addysgu a/neu gefnogi dysgu.

– cydnabod yr amrywiaeth eang o gyd-destunau lleol a byd-eang y mae addysg uwch yn gweithredu ynddynt, a'r arferion a'r rolau amrywiol sy'n cyfrannu at ddysgu o safon uchel.

– nodi tair set gysylltiedig o Ddimensiynau: Gwerthoedd Proffesiynol, Gwybodaeth Graidd a Meysydd Gweithgarwch.

– cyflwyno, drwy bedwar Disgrifydd, sy'n ymgorffori'r Dimensiynau, set o ddatganiadau meini prawf y gall unigolion arddangos eu hymarfer yn eu herbyn.


– meithrin dulliau beirniadol gwerthusol, myfyriol a seiliedig ar dystiolaeth o addysgu a/neu gefnogi dysgu mewn lleoliadau academaidd neu broffesiynol amrywiol.

– galluogi unigolion a sefydliadau i adolygu a gwella ymarfer mewn addysgu a/neu gefnogi dysgu, gan roi pwyslais ar gyfer datblygiad proffesiynol cychwynnol a pharhaus.

– cynnig strwythur i helpu sefydliadau ac unigolion i hybu arferion addysg uwch i ddiwallu anghenion dysgwyr a chymdeithas wrth iddynt esblygu, fel gweithredu i gefnogi Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

– cynnig strwythur sy'n galluogi unigolion a sefydliadau i gael cydnabyddiaeth am ddulliau sy'n hybu dysgu o safon uchel.

# Y Fframwaith Safonau Proffesiynol



# Dimensiynau


## Beth yw Dimensiynau?

– Mae Dimensiynau'n 15 datganiad sy'n llywio ac yn disgrifio ymarfer. Maent yn cael eu trefnu fel tair set gysylltiedig o bum Gwerth Proffesiynol, pum math o Wybodaeth Graidd a phum Maes Gweithgarwch. Mae gan bob set o Ddimensiynau ei datganiad bôn ddatganiad ei hun. Mae'r rhain yn hanfodol i ymarfer proffesiynol am eu bod yn dangos yr hyn mae gweithwyr proffesiynol yn ei wneud i alluogi addysgu o safon uchel a/neu gefnogi dysgu mewn addysg uwch.

– **Gwerthoedd Proffesiynol:**
ategu pob math o Wybodaeth Graidd a Meysydd Gweithgarwch. Dyma sylfaen ymarfer proffesiynol.

– **Gwybodaeth Graidd:**
yn cael ei llywio gan y Gwerthoedd Proffesiynol, sy'n cynrychioli'r prif fathau o wybodaeth sydd eu hangen i ymgymryd â'r Meysydd Gweithgarwch. Mae sawl math a mathau amrywiol o wybodaeth sy'n gysylltiedig ac sy'n cael eu ffurfio gan gymunedau a chyd-destunau.

– **Meysydd Gweithgarwch:**
dod â'r Gwerthoedd Proffesiynol a mathau o Wybodaeth Graidd ynghyd, gan ddangos y gweithgarwch hanfodol sy'n helpu i gyflawni ymarfer effeithiol.



## Gwerthoedd Proffesiynol

**Yn eich cyd-destun, dangoswch sut ydych yn:**

**GP1** parchu dysgwyr unigol a grwpiau amrywiol o ddysgwyr

**GP2** hybu ymgysylltu mewn dysgu a chyfleoedd cyfartal i bawb i gyrraedd eu potensial

**GP3** defnyddio ysgolheictod, neu ymchwil, neu ddysgu proffesiynol, neu ddulliau eraill sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth fel sail i ymarfer effeithiol

**GP4** ymateb i'r cyd-destun ehangach y mae addysg uwch yn gweithredu ynddo, gan gydnabod y goblygiadau i ymarfer

**GP5** cydweithio ag eraill i wella ymarfer

## Gwybodaeth Graidd

**Yn eich cyd-destun chi, cymhwyso gwybodaeth am:**


**GG1** sut mae dysgwyr yn dysgu, yn gyffredinol ac mewn pynciau penodol

**GG2** dulliau o addysgu a/neu gefnogi dysgu, sy'n briodol i bynciau a lefelau astudio

**GG3** gwerthuso beirniadol fel sail i ymarfer effeithiol

**GG4** defnydd priodol o dechnoleg ddigidol a/neu dechnolegau eraill, ac adnoddau i ddysgu

**GG5** gofynion ar gyfer sicrhau ansawdd a gwella, a'u goblygiadau i ymarfer




## Meysydd Gweithgarwch

**Yn eich cyd-destun, dangoswch eich bod yn:**

**MG1** dylunio a chynllunio gweithgarwch a/neu raglenni dysgu

**MG2** addysgu a/neu gefnogi dysgu drwy ddulliau ac amgylcheddau priodol

**MG3** asesu a rhoi adborth ar ddysgu

**MG4** cefnogi ac arwain dysgwyr

**MG5** gwella ymarfer drwy eich datblygiad proffesiynol parhaus eich hun

# Disgrifyddion

## Beth yw Disgrifyddion?


– Pedwar Disgrifydd gyda phob un yn cynnwys cyflwyniad a set o dri datganiad maes prawf.

– Mae’r rhain yn diffinio prif nodweddion pedwar categori ymarfer eang. Gan ymgorffori’r Dimensiynau, mae pob Disgrifydd yn dangos graddfa’r ymarfer sydd ei angen i’w gyflawni ac mae’n cydnabod amrywiaeth yr ymarfer a’r rolau mae gweithwyr proffesiynol sy’n addysgu a/neu gefnogi dysgu’n ymgymryd â hwy.

– mae unigolion yn defnyddio’r Disgrifyddion i gynllunio’u datblygiad ac i ddangos tystiolaeth o’u hymarfer i gyflawni cydnabyddiaeth broffesiynol.

– mae sefydliadau’n defnyddio’r Disgrifyddion fel sail i ddatblygiad proffesiynol cychwynnol a pharhaus a rhaglenni cydnabyddiaeth, i lywio llwybrau gyrfaoedd/cynnydd ac i gefnogi datblygiad talent.

– mae sefydliadau proffesiynol yn defnyddio’r Disgrifyddion fel sail i weithgarwch a fframweithiau cydnabod sy’n hybu datblygiad proffesiynol unigolion a sefydliadau.



# Disgrifydd 1

Mae D1 yn addas i unigolion y mae eu hymarfer yn eu galluogi i ddangos tystiolaeth o rai Dimensiynau. Effeithiolrwydd ymarfer mewn addysgu a/neu gefnogi dysgu yn cael ei ddangos drwy dystiolaeth o:




**D1.1**

defnydd o Werthoedd Proffesiynol priodol, gan gynnwys o leiaf GP1 a GP3

**D1.2**

cymhwyso Gwybodaeth Graidd briodol, gan gynnwys o leiaf GG1, GG2 a GG3

**D1.3**

ymarfer effeithiol a chynhwysol mewn o leiaf ddau o'r pum Maes Gweithgarwch

**Mae Disgrifydd 1 yn alinio â chydnabyddiaeth Advance HE fel Cymrawd Cyswllt.**

# Disgrifydd 2

Mae D2 yn addas i unigolion y mae eu hymarfer â dysgwyr yn dangos dyfnder ac ehangder, sy’n eu galluogi i ddangos tystiolaeth o bob Dimensiwn. Mae effeithiolrwydd ymarfer mewn addysgu a/neu gefnogi dysgu yn cael ei arddangos drwy dystiolaeth o:




**D2.1**

defnydd o bob un o’r pum Gwerth Proffesiynol

**D2.2**

cymhwyso pob un o’r pum math o Wybodaeth Graidd

**D2.3**

ymarfer effeithiol a chynhwysol ym mhob un o’r pum Maes Gweithgarwch

**Mae Disgrifydd 2 yn alinio â chydnabyddiaeth Advance HE fel Cymrawd.**

# Disgrifydd 3

Mae D3 yn addas i unigolion y mae eu dealltwriaeth gynhwysfawr a'u hymarfer effeithiol yn sail i'w galluogi i arwain neu ddylanwadu ar y sawl sy'n addysgu a/neu'n cefnogi dysgu o safon uchel.
Mae unigolion yn gallu dangos tystiolaeth o:




**D3.1**

cofnod parhaus o arwain neu ddylanwadu ar ymarfer y rhai sy'n addysgu a/neu'n cefnogi dysgu o safon uchel

**D3.2**

ymarfer sy'n effeithiol, cynhwysol ac sy'n integreiddio pob Dimensiwn


**D3.3**

ymarfer sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i addysgu uniongyrchol a/neu gefnogaeth uniongyrchol i ddysgu

**Mae Disgrifydd 3 yn alinio â chydnabyddiaeth Advance HE fel Uwch Gymrawd.**

# Disgrifydd 4

Mae D4 yn addas ar gyfer unigolion profiadol iawn y mae eu hymarfer yn cynnwys cofnod parhaus o effeithiolrwydd mewn arweinyddiaeth strategol mewn dysgu o safon uchel. Mae eu heffaith yn sylweddol. Mae unigolion yn gallu dangos:




**D4.1**

arweinyddiaeth strategol barhaus ac effeithiol mewn ymarfer addysg uwch, gydag effaith sylweddol ar ddysgu o safon uchel: o fewn a thu hwnt i sefydliad, neu ar draws disgyblaeth neu broffesiwn

**D4.2**

datblygu a gweithredu strategaethau, neu bolisïau, neu weithdrefnau, neu fentrau effeithiol a chynhwysol i wella ymarfer a chanlyniadau i ddysgwyr

**D4.3**

ymrwymiad gweithredol i, ac integreiddio'r holl ddimensiynau mewn arweinyddiaeth strategol ymarfer academaidd neu broffesiynol

**Mae Disgrifydd 4 yn alinio â chydnabyddiaeth Advance HE fel Prif Gymrawd.**

# Cysylltiad â chydnabyddiaeth broffesiynol unigol Advance HE ac achrediad sefydliadol

Mae Advance HE yn cydnabod unigolion sy'n cyflawni gofynion un o Ddisgrifyddion y Fframwaith Safonau Proffesiynol (FfSP) drwy ddyfarnu categori o Gymrodoriaethau. Mae achrediad sefydliadol Advance HE yn cynnig mecanwaith sy'n galluogi rhaglenni datblygiad proffesiynol i gael eu cadarnhau fel rhai wedi'u halinio i'r FfSP gan alluogi'r sawl sy'n eu cwblhau i gael eu cydnabod fel Cymrawd Cyswllt, Cymrawd, Uwch Gymrawd neu Brif Gymrawd. Cynigir arweiniad a chymorth drwy waith Advance HE i sefydliadau addysg uwch sy'n dymuno cael eu hachredu am gymhwyso a defnyddio'r FfSP.

Gweler **www.advance-he.ac.uk** am ragor o fanylion.

Mae'r FfSP, y deunydd hwn a'i gynnwys wedi'i ddatblygu gan Advance HE ac ar ran y sector addysg uwch. Mae'r hawlfraint ar y deunydd hwn yn eiddo ar y cyd i Advance HE, GuildHE a Universities UK.

© Advance HE, GuildHE, Universities UK 2023. Cedwir pob hawl.

Gwaherddir yn llwyr ailddosbarthu neu atgynhyrchu'r cynnwys, yn rhannol neu'n gyflawn, mewn unrhyw ffurf, oni bai fod caniatâd i wneud hynny wedi'i roi'n benodol gan ddeiliaid yr hawlfraint.